



Math o adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Ar-lein (Zoom)		
Dyddiad Date	23/7/20	Amser Time	13.00 pm

Yn bresennol

Cynrychiolwyr y Sector Preifat:		
Nigel Peacock	Contractwr Hunangyflogedig	NP
Mari Faulkner	Contractwr Hunangyflogedig	MF
Dylan Evans	Contractwr Hunangyflogedig	DE
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol:		
Peter Davies OBE	Menter Gymdeithasol Llangefni ac Is-gadeirydd	PD
Sian Purcell	Medrwn Môn	SP
Neville Evans	Iorwerth Arms Bryngwran	NE
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Molly Lovatt	CNC	ML
Pryderi Ap Rhisiart	M Sparc	PAR
Staff Menter Môn		
Jackie Lewis	Menter Môn a chofnodion	JL
Meilir Pritchard	Menter Môn	MP
Sioned Morgan Thomas	Menter Môn	SMT
Dafydd Gruffydd	Menter Môn (MD)	DG
Craig Hughes	Menter Môn	CH



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



Pwynt	Manylion	Pwynt Gweithredu
1	<p><u>Croeso</u></p> <p>Croesawodd PD bawb i'r cyfarfod gan weithredu fel Cadeirydd yn absenoldeb Martin Jardine</p>	
2	<p><u>Ymddiheuriadau</u></p> <p>Martin Jardine (Cadeirydd)</p>	
3	<p><u>Datgan buddiant</u></p> <p>Cafwyd datganiadau o fuddiant gan:</p> <p>Nigel Peacock - contractwr ar gyfer Olwyn Môn</p>	
4	<p><u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 13-2-20</u></p> <p>Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cymeradwyo; fodd bynnag roedd dyddiad y cyfarfod yn anghywir – y dyddiad cywir oedd 21-5-20:</p> <p>Cynigiwyd – Nigel Peacock Eiliwyd – Sian Purcell</p>	<p>JL i gywiro dyddiad y cofnodion diwethaf</p>
5	<p><u>Materion yn Codi</u></p> <p><u>Aelodaeth LAG</u></p> <p>Hysbyswyd y cyfarfod gan SMT fod aelodaeth y LAG yn cael ei hadolygu a bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymal sy'n datgan y byddai methiant i fod yn bresennol mewn tri chyfarfod yn olynol neu i anfon dirprwy yn golygu na fyddai'r unigolyn hwnnw bellach yn aelod o'r LAG - gofynnodd DE a oedd presenoldeb ar-lein neu Ddeialu i mewn yn dderbyniol, a chytunodd yr aelod y byddai hynny'n dderbyniol. Bydd yr holl ddogfennaeth yn cael ei dosbarthu o fewn yr wythnos ganlynol.</p>	<p>JL i anfon dogfennau at yr holl aelodau</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Dyweddodd SMT hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod gweddill cyllid LEADER MM yn ddiogel; fodd bynnag, mi fyddi'n rhaid ailbroffilio. Mae canllaw atodol wedi'i gyhoeddi ar gyfer gweddill y rhaglen sy'n datgan y dylai'r cyllid gael ei dargedu at COVID-19 ac adferiad yr Ynys wedi hynny.</p> <p><u>Lôn Las Cefni</u></p> <p>Caiff yr eitem hon ei thrafod gyda diweddariadau ar brosiectau.</p> <p><u>App Tracio ac Olrhain</u></p> <p>Eglurodd SMT fod cyfarfod brys o'r LAG wedi'i alw ar gyfer 14/7/20 i drafod cais gan Gyngor Ynys Môn am arian i ddatblygu fersiwn ddwyieithog o ap Tracio ac Olrhain ar gyfer Ynys Môn. Cafwyd trafodaeth dda a chafodd y cais ei gymeradwyo mewn pleidlais, 5 o blaid a 2 yn erbyn.</p> <p>Mae datblygiad yr ap yn edrych yn annhebygol ar hyn o bryd o ganlyniad i gydsyniadau a thwyddedau - ceir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf</p>
6	<p><u>Llwyddo'n Lleol</u></p> <p>Croesawyd Elen Hughes o Fenter Môn i'r cyfarfod i gyflwyno prosiect Llwyddo'n Lleol 50:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio â 14 o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed • Mae pob person ifanc yn cyflwyno syniad am fusnes ac yn cael £1,000 i ddatblygu'r syniad hwnnw'n fusnes • Mae pob cyfranogwr yn cael help Mentor, a chynllun 10 wythnos sy'n edrych ar newid, meddwl mewn ffordd wahanol, marchnata a brandio • Mae cyfle wedyn i gyflwyno'r syniad gerbron panel tebyg i'r Dragon's Den • Mae cyfleoedd hefyd i wneud fideos, podlediadau a chyfleodd ar gyfryngau cymdeithasol <p>Diolchwyd i Elen am ei chyflwyniad - LAG 23.7.20.pptx</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



7	<p><u>Diweddariad ar Brosiectau</u></p> <p><u>Olwyn Môn</u></p> <p>Cafodd NP ei longyfarch am ei bapur ymchwil ar Olwyn Môn gan PD a gofynnwyd sut y gellid mynd â hyn ymhellach. Soniodd NP am ddatblygiad cenedlaethol gyda Sustrans yn israddio llwybrau presennol oherwydd ystyriaethau diogelwch (cyfyngiadau cyflymder) ac roedd llwybr Gogledd-ddwyrain Môn yn un o'r llwybrau a allai gollu cydnabyddiaeth.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai JL yn gweithio â NP ar waith ychwanegol a fyddai'n arwain at ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu Olwyn Môn ymhellach.</p> <p><u>Lôn Las Môn</u></p> <p>Eglurodd DG ei fod wedi cael trafodaethau â Sustrans, Rhun ap Iorwerth AS, Virginia Crosbie AS a Chyngor Môn ynghylch yr anghydfod rhwng y rheilffordd a llwybr seiclo a dywedodd fod Sustrans yn ystyried yr hyn sy'n bosibl o ran yr agenda llwybr seiclo. Mae MM yn awyddus i'r ddwy ddadl gael eu clywed ac i edrych ar y posibilrwydd y gallai'r lein gael dau ddefnydd mewn rhai manau. Bydd DG yn diweddarau'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y LAG</p> <p><u>Wi Fi Cymunedol</u></p> <p>Dywedodd MP fod Wi Fi Cymunedol Llangefni yn bwrw ymlaen fesul cam, gyda gosodwyr yn cael eu lleoli ar Neuadd y Dref Llangefni cyn hir. Dywedodd hefyd fod Wi Fi Gwynedd yn casglu data defnyddiol allai fod yn fuddiol i fusnesau i dargedu eu cynigion arbennig ac ati yn well.</p> <p><u>Cysylltu Cymunedau</u></p> <p>Cyflwynodd MP wefan newydd ar gyfer cymunedau/preswylwyr i roi gwybod am broblemau cysylltedd yn eu hardal. Roedd y safle'n cynnwys mapiau a rhagor o wybodaeth yn y gobaith o helpu pobl i ddatrys eu problemau band eang. Mae datrysiadau'n cael eu paratoi hefyd ar gyfer ardaloedd Llanfairpwllgwyngyll a Phenmynydd a</p>	<p>JL a NP i drefnu trafodaeth</p> <p>Eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf</p>
---	---	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	byddant yn cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru cyn gynted â phosibl i alluogi darparwyr i dendro amdanynt.	
8	<p><u>Cymeradwyo Prosiectau</u></p> <p><u>NEGES – Blychau Gourmet</u></p> <p>Cyflwynodd CH fanylion am fenter Blychau Gourmet NEGES, sy'n bwriadu pecynnu a danfon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 100 o focsys o gynnyrch a chynhwysion lleol o safon uchel ynghyd â ryseitiau a fideos sy'n cael eu cyflenwi gan gogyddion 5 o brif fwyty'r ynys • Bydd deunydd pacio newydd mwy cynaliadwy'n cael ei ddefnyddio • Byddant yn cael eu pacio mewn cyfleuster diogel a'u gwerthu ar-lein drwy Shopify • Byddant yn cael eu danfon i ddrws y cwsmer <p>Gofynnwyd i PD sut fydd y data am bwy sydd wedi prynu'r cynnyrch yn cael eu cymharu e.e. pwy sy'n ymwelwyr a phwy sy'n lleol – dywedodd CH ei bod yn debygol y byddant yn cael eu cofnodi'n dymhorol (byddai'r tu allan i'r tymor traddodiadol yn golygu rhywun lleol).</p> <p>Dywedodd SP y dylid cymryd gofal wrth farchnata gan fod y brand NEGES wedi cael ei gysylltu â bwyd am ddim hyd yma</p> <p>Gobeithir y bydd galw am y blychau yn y dyfodol ymhlith preswylwyr a llety hunanarlwyo ym Môn.</p> <p>Gofynnodd PD bod Amcanion Strategol y prosiect a sut y byddant yn cael eu cyflawni gan y peilot hwn yn cael eu cynnwys ar y ffurflen gais</p> <p><u>CAIS A GYMERADWYWD – 20K GAN GYNNWYS TAW</u></p> <p><u>Ymyriadau Digidol</u></p>	<p>CH i ddiwygio'r ffurflen gais i adlewyrchu'r Amcanion Strategol</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Cyflwynodd MP gais i rannu 20 o lwybryddion i bobl/canolfannau cymunedol/ardaloedd lle mae'r cysylltiad band eang yn wael gyda'r peilot yn talu am hyd at 3 mis o ddata. Bydd y buddiolwyr yn cael eu dewis drwy alwad agored.</p> <p><u>Storetally</u></p> <p>Mae Storetally yn gyfarpar electronig sy'n cofnodi faint o gwsmeriaid sydd mewn siop. Eglurodd MP y byddai'r peilot yn gosod 8 system o'r fath mewn busnesau ym Môn, gan gynnwys cawodydd a thoiledau mewn meysydd carafanau.</p> <p>Gofynnwyd cwestiwn am ddefnydd o'r dechnoleg yn y dyfodol ac ymatebodd MP drwy ddweud y byddai'n ddefnyddiol ar gyfer digwyddiadau a chlybiau nos, ac nad yw'n cynnwys anifeiliaid!</p> <p><u>CYMERADWYO'R CAIS – 10K YN CYNNWYS TAW</u></p> <p><u>Ymchwil i'r Farchnad Leol</u></p> <p>Cyflwynodd DG y cais fel Astudiaeth Môn a Gwynedd sy'n edrych ar Gynnyrch y Farchnad Leol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr hyn sy'n digwydd yn lleol cyn/yn ystod ac ar ôl COVID-19 • Canfod rhanddeiliaid/partneriaid lleol i ddatblygu syniadau ar gyfer y farchnad leol • Canfod marchnadoedd posibl a model i'w dreialu ym Môn <p>Gofynnodd ML a ellid creu cysylltiad rhwng y Blychau Gourmet a'r angen i edrych ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd gan fod pobl yn casglu blychau o siopau clicio a chasglu – bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn briff.</p> <p><u>CYMERADWYO'R CAIS – 2,025K YN CYNNWYS TAW</u></p> <p><u>Trawsnewid Trefi</u></p> <p>Cyflwynodd JL y cais ar gyfer ymchwil o dan 5K ac eglurodd fod Cyngor Ynys Môn yn cael arian i'w fuddsoddi i helpu adferiad busnesau yng</p>	<p>CH/DG i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf</p>
--	---	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>nghanol trefi Môn ac i fod yn fwy cydnerth yn dilyn COVID-19. Byddai'r ymchwil yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall heriau • Adolygu arferion gorau • Canfod teipolegau posibl a datrysiadau posibl ar gyfer Strydoedd Mawr • Cynnal ymweliadau ac ymgynghoriadau <p><u>CYMERADWYO'R CAIS – 3,425K YN CYNNWYS TAW</u></p>	
9	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p>Dywedodd PD fod eitem wedi'i hepgor o'r agenda, sef trafodaeth ar gronfeydd Cyllid Cymunedau Creadigol ac nad oedd amser i roi sylw i adroddiadau Cyllid SMT – cynigiodd fod hyn yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf – cafwyd cytundeb unfrydol.</p>	Eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf
10	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>Hydref 15 2020 – 1.00PM</p>	SMT i drefnu dolen



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

